# SL(5)737 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

O dan Reoliadau 2020, mae'n ofynnol cynnal is-etholiadau gohiriedig ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned, a oedd i fod i ddigwydd rhwng 16 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021, rhwng 1 Chwefror 2021 a 16 Ebrill 2021.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gohirio'r is-etholiadau hyn ymhellach fel ei bod bellach yn ofynnol i gynnal is-etholiadau gohiriedig ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned, a oedd i fod i ddigwydd rhwng 16 Mawrth 2020 a 28 Chwefror 2021, rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r

esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Ionawr 2021.

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch gohirio is-etholiadau awdurdodau lleol yn flaenorol o dan Reoliadau 2020 a'r esboniad a ganlyn:

> *"… yn ddiweddar, fel y gwyddoch, mae pandemig y Coronafeirws wedi gweld ymchwydd arall a chyfyngiadau lefel 4 yn cael eu rhoi ar waith. Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd, ystyrir bod angen gohirio'r is-etholiadau hyn ymhellach o'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 tan 6 Mai 2021. Gan fod yr etholiadau a ohiriwyd i fod i gael eu cynnal yn wreiddiol o 1 Chwefror, mae angen cyflwyno'r set hon o reoliadau ar frys ac felly eu cyflwyno i rym cyn gynted â phosibl. Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 yn darparu bod y cyfnod gohirio yn dod i ben ar 31 Ionawr 2021. Mae peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 29 Ionawr 2021. Oherwydd yr amgylchiadau, credir felly ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Hysbyswyd Swyddogion Canlyniadau o'r bwriad i wneud y Rheoliadau i'w cynorthwyo yn eu paratoadau."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau: 3**

Gwnaed y Rheoliadau er mwyn ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu modd llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig yn ymwneud â dyddiad gohirio is-etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ei gyhoeddi maes o law.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.